



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynys

1: Pobl yn weithgar yn eu cymunedau: Creu'r amodau
lle gall pobl a chymunedau wneud y pethau sy'n bwysig
iddynt hwy

2: Cymunedau cysylltiedig: Cynorthwyo cymunedau i greu
cysylltiadau da a bod yn ddiogel

3. Mynediad i wasanaethau llesiant allweddol:
Cynorthwyo economïau sylfaenol bywiog

4: Sefydliadau angori cymunedau: Gwerthfawrogi'r rôl a
photensial y gall sefydliadau angori cymunedau ei chwarae
wrth adeiladu cymunedau cydlynus



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynys

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,
diffinnir y rôl hon fel:

*“Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â
chysylltiadau da.”*



Diffinio'r nod

Ysgrifennodd yr awdur Americanaidd Meg Wheatley: “Nid oes unrhyw bŵer a fedr greu mwy o newid na chymuned yn darganfod yr hyn sy'n bwysig iddi.” Er gwaethaf hynny, cred llai na 25% o bobl ledled Cymru y gallant effeithio ar benderfyniadau a wneir yn lleol.

Pan fydd cymunedau'n gydlynus, mae ganddynt gysylltiadau da (yn cynnwys rhai digidol); gallant addasu i newid, ac maent yn ffocysu ar lesiant y bobl sy'n byw yno gyda mynediad da i wasanaethau llesiant allweddol megis addysg, iechyd, tai, manwerthu a thrafnidiaeth. A gall pobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae cymunedau cydlynus cysylltiedig yn rhan bwysig o lesiant pobl fel unigolion. Adnabu Sefydliad Iechyd y Byd bod diffyg gweithredu, ymddiriedaeth, a theimlad o berthyn, a chymdogaethau ansicr yn egluro 19% o'r bwlch mewn iechyd gwael rhwng yr incwm cyfartalog uchaf a'r isaf ar gyfer dynion a menywod yn Ewrop. Elfen allweddol yw presenoldeb sefydliadau cryf, lleol – a elwir yn aml yn 'sefydliadau angori cymunedau' – megis ymddiriedolaethau datblygu, mentrau cymdeithasol, cymdeithasau tai a chynghorau tref/cymuned. Maen nhw'n bwysig

oherwydd eu bod yn deall cymunedau lleol ac am fod ganddynt ymrwymiad hirdymor i'r ardal a wasanaethir ganddynt.

Mae cymunedau cydlynus hefyd yn gosod llesiant wrth wraidd datblygiad economaidd lleol. Mae'r Economi Sylfaenol yn ymwneud â gwasanaethau cyffredinol sylfaenol sy'n cynorthwyo bywyd bob dydd, megis iechyd, gofal a manwerthu. Gan fod bron i hanner holl gyflogaeth lleol yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn, a'u bod yn gymharol sefydlog ac yn medru ymdopi â sioc economaidd, gall cyrff cyhoeddus eu gwerthfawrogi a'u cryfhau drwy agor gofod ar gyfer sgysiau i facsimeiddio eu potensial, gan greu amodau i'w helpu i wneud cyfraniad mwy.



Astudiaethau achos

Drwy'r holl ddogfen hon byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os byddwch yn gweld y symbol hwn.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Creu cymunedau hyfyw lle gall pobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt hwy

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus - pwnc taith 1: Pobl yn weithgar yn eu cymunedau\)](#)

Cynorthwyo cymunedau i greu cysylltiadau da

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 2: Cymunedau cysylltiedig\)](#)

Cynorthwyo mynediad i wasanaethau llesiant allweddol mewn cymunedau

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 3: Mynediad i wasanaethau llesiant\)](#)

Gwerthfawrogi rôl sefydliadau allweddol wrth adeiladu cymunedau cydlynus

[\(Gweler Cymru o Gymunedau Cydlynus – pwnc taith 4: Sefydliadau angori cymunedau\)](#)

Deall rôl tai mewn cymunedau cydlynus

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Creu cymunedau lle gall pobl deimlo'n ddiogel

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Galluogi cymunedau i gysylltu'n ddigidol

[\(Pwnc taith i gael ei archwilio ymhellach yn y cyfnod nesaf\)](#)

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae'r **Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fapio a gwella'n barhaol lwybrau a chyfleusterau ar gyfer "teithio llesol" – a ddiffinnir fel cerdded neu feicio at ddiben penodol, megis mynd i'r gwaith neu gyrchu gwasanaethau, yn hytrach nag fel weithgaredd oriau hamdden.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru** yn arwyddocaol yn y dasg o'n symud ni tuag at garbon isel, cymdeithas gydnerth, adeiladu amgylcheddau â chysylltiadau da i bawb yng Nghymru sy'n gwella ein bywydau, iechyd a llesiant. Mae'n cyflwyno'r cysyniad o lunio lle, ymagwedd holistig tuag at gynllunio a dylunio datblygu a mannau agored, sy'n ffocysu ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n manteisio ar botensial ardal i greu datblygu o ansawdd da a mannau agored sy'n hybu ffyniant, iechyd a llesiant pobl.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014)** yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hybu llesiant y rhai sydd ag angen gofal a chymorth, neu ofalwyr sydd ag angen cymorth. Egwyddorion y Ddeddf yw: cynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth i ennill llesiant; gwneud pobl yn ganolog i'r system newydd drwy roi iddynt lais cyfartal yn y gofal a dderbyniant; mae partneriaeth a chydweithredu'n sbarduno cyflawni gwasanaeth; a gwasanaethau'n helpu i leihau angen a sicrhau fod y gofal cywir ar gael ar yr amser cywir.




Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'.

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy **tebygol o ddigwydd pan fydd...**


- Cyrff cyhoeddus yn creu'r amodau gorau ar gyfer helpu cymunedau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy.
- Cyrff cyhoeddus yn sefydlu'r sgysiau am yr 'hyn sy'n bwysig' i bobl fel rhan hanfodol o'r modd y maent yn gweithio ([gweler y Daith tuag at Ymgyfraniad](#)).
- Cronfeydd allweddol a chyllidebau lleol yn cael eu defnyddio'n greadigol.
- Sefydliadau angori cymunedau a fedr roi llais i bobl leol, yn cael eu cynorthwyo i ddal asedau ac adeiladu cydnerthedd.
- Cymorth ar gael i arweinyddion cymunedol, actifyddion, entrepreneuriaid a gwirfoddolwyr.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn llai **tebygol o ddigwydd pan fydd...**

- Cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn seilos heb fabwysiadu ymagweddau 'seiliedig-ar-le' tuag at yr hyn sy'n bwysig i bobl.
- Cyrff cyhoeddus yn gweld cymunedau fel rhai diffygiol, gan ffocysu ar wendidau ymddangosiadol ac anwybyddu cryfderau.
- Cyfleoedd cyllido'n fyr eu tymor a thameidiog.
- Agweddau tuag at gymunedau'n perchnogi asedau'n cael eu cyfyngu gan farn mai cyrff cyhoeddus yw'r 'lle naturiol' ar gyfer cadw asedau, a pherchnogaeth gan y gymuned yn dod yn bosibl yn unig pan na fydd cyrff cyhoeddus yn medru eu fforddio.
- Cyrff cyhoeddus yn siarad am ymgyfrannu a chyd-gynhyrchu ond heb fuddsoddi ar gyfer gwneud hyn yn iawn.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru o Gymunedau Cydlynus

1: Pobl yn weithgar yn eu cymunedau

Creu'r amodau lle gall pobl a chymunedau wneud y
pethau sy'n bwysig iddynt hwy

Diffinio'r mater

Mae cysylltiadau cadarnhaol, caredigrwydd ac ymddiriedaeth wrth wraidd llesiant personol a chymunedol. Er eu bod yn byw mewn oes â chysylltiadau digidol, mae llawer o bobl yn teimlo'n fwy ynysig a bod cwrdd â chymdogion ac aelodau eraill o'r gymuned yn fwy anodd.

Mae cyrff cyhoeddus yn aml yn brwydro i ddeall yr ystod o asedau sy'n bodoli o fewn eu cymunedau: rhwydweithiau, cymdeithasau, cyfleusterau, asedau naturiol, tir, adeiladau, mannau gwyrdd, busnesau bach a.y.y.b ac yn methu manteisio i'r eithaf ar y cryfderau hyn pan fyddant yn datblygu eu cynlluniau seiliedig-ar-le.

Mae gan bobl sgiliau, profiad o fywyd, ynni ac ymrwymiad ac mae dod o hyd i ddulliau o ddatgloi'r rhain yn hollbwysig. Dylai fod yn hawdd i drigolion a staff mewn cyrff cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector a busnesau i gynnig amser a sgiliau – a dylid defnyddio'r cyfleoedd hyn i helpu i adeiladu ymddiriedaeth ar draws sectorau a sefydliadau. Yn rhy aml, mae cymunedau'n wynebu rhwystrau pan fyddant yn gwneud pethau syml drostynt eu hunain, megis digwyddiadau lleol cymunedol.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



**Taith tuag at Gymru â diwylliant bywiog
lle mae'r Gymraeg yn ffynnu -
Pwnc 5: Diwylliant ar gael i bawb**



Taith tuag at Ymgyfraniad – Pob pwnc



**Taith tuag at Gymru gydnerth -
Pwnc 2: Mannau gwyrdd naturiol**



**Taith tuag at Gymru lachach –
Pwnc 1: Trin pobl gyda thosturi**

Gwneud Newidiadau Syml

Dilëwch rwystrau i alluogi cymunedau i drefnu digwyddiadau lleol sy'n dwyn pobl at ei gilydd, [megis y Cinio Mawr](#). Dylai awdurdodau lleol adolygu unrhyw gydsyniadau, trwyddedau a gofynion yswiriant a'u gwneud yn gymesur â [gweithgaredd lefel stryd](#).

Adolygwch a yw [gofynion am gydsyniadau](#) a thrwyddedau (megis cau ffyrdd, trwyddedau cerddoriaeth, yswiriant, tystysgrifau glendid bwyd) yn gymesur ar gyfer digwyddiadau graddfa-fach a fedr ddwyn trigolion a chymdogion at ei gilydd.

Ymrowch i ddwyn cymunedau at ei gilydd drwy gelfyddyd, prosiectau diwylliannol a chwaraeon sy'n darparu manteision niferus.

E.e. [Gwnaeth Cymdeithas Tai Unedig Cymru a No Fit State](#) ddwyn perfformiadau a gweithdai i Fryn Aber, Parc Lansbury, Aberbargoed a Thredegar.

Dathlwch werth cymunedau sy'n ymgyfrannu mewn chwaraeon, bwyd/tyfu, mannau gwyrdd a'r manteision sy'n dod yn eu sgil, a hyrwyddwch pryd a ble mae'n digwydd.

E.e. [Caerffili](#).

Mapiwch dir cyhoeddus i adnabod a rhoi cyhoeddusrwydd i dir sy'n hygyrch i'w ddefnyddio gan bob grŵp cymunedol. Byddwch yn barod i gychwyn sgwrs gydag aelodau'r gymuned a sefydliadau ar sut i ddefnyddio'r rhain.

E.e. [Achubwyr Lle Gwag](#) - sef cydweithrediad rhwng Cymdeithas **Tai Unedig Cymru, Newydd, V2C, Cymdeithasau Tai Calon** i helpu cymunedau i wneud defnydd unwaith eto o dir nas cerir.

<https://www.youtube.com/watch?v=0RITmJiSRbY&feature=youtu.be>

Gwneud Newidiadau Syml

Hwyluswch ymdrechion

trigolion i sefydlu '[Park Runs](#)' [yn eu cymunedau](#). Mae hyn yn cynnwys annog grwpiau sy'n ymddangos i ddefnyddio parciau a defnyddio cronfeydd allweddol i gynorthwyo grwpiau i dalu ffioedd cofrestru cymedrol ymlaen llaw.

E.e. Gweithiodd trigolion yn Aberdâr gyda **Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** i hwyluso cychwyn eu '[Park Run](#)'.

Hyrwyddwch ddiwylliant a chelfyddyd fel dull effeithiol o ddwyn cymunedau at ei gilydd.

E.e. Y rhaglen '[It's art but it's not](#)' – **Tai Trivallis**.

Defnyddiwch chwaraeon i

annog pobl ifanc i fod yn heini gan fynd i'r afael â heriau anodd megis newyn gwyliau.

E.e. '[Fit and Fed](#)' [Gemau Stryd Cymru](#).

Cynorthwywch bobl leol i

gychwyn ymgyfrannu mewn [Cymunedau Cyfeillgar i Ddementia](#) - mae pawb yn elwa o fod yn rhan o gymuned sy'n gofalu am ei gilydd.

E.e. [Trefi Cyfeillgar i Ddementia](#) a <https://youtu.be/B9InyzCaMvs>

Cynigiwch ddiwylliant

croesawgar cynnes i'r rhai sy'n ceisio noddfa – yn arbennig y rhai sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth.

E.e. [Dinas Noddfa Caerdydd](#).

Hyrwyddwch gyfleoedd i bobl fod yn weithgar yn eu cymunedau a gwirfoddoli eu hamser, profiad a sgiliau. Mae hyn yn cynnwys hybu cyfleoedd gwirfoddoli lleol (drwy Gyngorau Gwirfoddoli Cymunedol) ac [offer ar-lein](#) sy'n cynnig [gwirfoddoli mewn chwaraeon](#), [gwirfoddoli i fyfyrwyr](#) a mwy o [wybodaeth am gredydau amser](#).

Gwneud Newidiadau Syml

Edrychwch i weld a yw cynlluniau [Credydau Amser](#) yn eich ardal yn weithredol - os ydynt, archwiliwch gyfleoedd i greu partneriaethau i alluogi dinasyddion i chwarae rhan weithgar yn eu cymunedau.

Hyrwyddwch y defnydd o [Dewis Cymru](#) i hybu cyfleoedd lleol o fewn cymunedau.

Anogwch bobl i sefydlu [Rhwydweithiau Caredigrwydd](#) i adeiladu cydnerthedd unigol a chymunedol.

Anogwch y defnydd o offer Mapio Cymunedol i'ch helpu i ffocysu ar ble allwch wneud y mwyaf o wahaniaeth yn eich cymunedau.

E.e. Mae [Pecynnau Cymorth Mapio Cymunedol](#) **Bro Morgannwg** wedi cael eu defnyddio gan drigolion i'w helpu i lunio prosiectau cymunedol ledled y sir.

E.e. [Lluniwch fy Nhref](#), offeryn i helpu cymunedau i ddeall blaenoriaethau a phosibiliadau lleol.

Sicrhewch fod gwybodaeth am [ariannu allweddol a photiau ariannu cymunedol](#) ar gael yn eang ac yn hawdd ei gyrchu i helpu pobl i beri i bethau da ddigwydd yn eu cymunedau.

Hyrwyddwch y Gwasanaeth Cyngori ar Diroedd Cymunedol i helpu cymunedau sy'n ceisio deall dewisiadau a phosibiliadau i ddatblygu asedau tir cymunedol er lles pobl leol.

Rhowch gymorth i grwpiau cymunedol sydd eisiau cychwyn, tyfu a ffynnu. Mae hyn yn cynnwys helpu i gychwyn, cynllunio a datblygu prosiectau, helpu gydag ariannu, recriwtio a chynorthwyo gwirfoddolwyr a helpu i fesur effaith.

E.e. Mae [Interlink RCT](#) yn cynnig gwybodaeth am ddim, cyngor a chymorth i unigolion a chymunedau a grwpiau gwirfoddol yn Rhondda Cynon Taf.

Gwneud **Newidiadau** Syml

Anogwch staff cyrff cyhoeddus a phartneriaid i ymuno â rhwydweithiau sy'n hyrwyddo [ymagweddau cynhyrchu ar y cyd](#) tuag at ddylunio a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

Ystyriwch flaenoriaethau ymgyrchu [Dinasyddion Cymru](#) pan fyddwch yn gwneud eich cynlluniau chi eich hunain. Ymrowch i gysylltu pobl weithgar â'r rhwydwaith hon i lunio blaenoriaethau yn y dyfodol.

Cynorthwywch bobl i ymgymryd â mentrau fel [Eco-ysgolion](#), [Ysgolion Coedwig](#) a [Maint Cymru](#) i helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol byd-eang.

Deallwch y gall tai gwag ddifetha cymunedau, meddyliwch am ymagweddau newydd tuag at adfer y defnydd o gartrefi gwag.

E.e. [Homestep Plus](#) – **Cymdeithas Tai Unedol Cymru** sy'n darparu cyfleoedd i brynu ac ailwampio eiddo.

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Sicrhewch eich bod yn deall gwerth trigolion lleol yn dod at ei gilydd – a defnyddiwch y cyfleoedd sy'n deillio o hyn i wrando a deall beth sy'n bwysig, i adnabod cyfleoedd i gynhyrchu datrysiadau ar y cyd.

Cynorthwywch ddatblygiad rhwydweithiau cymunedol sy'n dwyn at ei gilydd bobl a chymunedau â diddordeb yn yr un themâu a materion, a helpwch i ddefnyddio rhwydweithiau cymheiriaid i'w cynorthwyo. Sicrhewch eich bod yn dod o hyd i ffyrdd i alluogi'r rhwydweithiau hyn i gyfrannu at gynlluniau polisiâu strategol ac ymagweddau tuag at gyflwyno gwasanaethau.

E.e. [Fforwm Amgylcheddol Abertawe](#).

E.e. Mae **Adfywio Cymru'n** rhoi cymunedau mewn cysylltiad â Mentora Cymheiriaid sy'n barod i rannu eu gwybodaeth a'u profiad i ysbrydoli, cynorthwyo a galluogi eraill, ac annog gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, ar lefel cymunedol.
<https://renewwales.org.uk/?lang=cy>

Gwasanaethau Cyhoeddus, sicrhewch ei fod yn defnyddio pob cyfle i hwyluso sgysiau gyda grwpiau cymdeithasau sifil i ddiweddarau cynnydd ar weithgareddau a siarad am beth arall sydd angen ei wneud.

E.e. [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili](#)

Sefydlwch y defnydd o ymagweddau Cysylltydd Cymunedol a Chydweithredu Ardal i gysylltu trigolion â rhwydweithiau cymorth lleol.

E.e. [Cyddlynu ardal leol Cyngor Abertawe](#)

E.e. [Cyddlynwyr Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwent](#)

Anogwch fwy o ganolfannau meddygon teulu i gymryd rhan mewn [prosiectau presgreibio cymdeithasol](#) i alluogi pobl leol i ymuno â rhwydweithiau gweithgar a chynorthwyol yn eu cymunedau.

E.e. **Cymdeithas Tai Unedig Cymru** [Cynllun 'Llesiant i chi'](#)

Bod Yn Fwy Anturus

Anogwch bob corff cyhoeddus, y trydydd sector a busnesau lleol i fabwysiadu [cynlluniau gwirfoddoli gweithwyr](#) i alluogi staff i gyfrannu amser ac arbenigedd i brosiectau cymunedol lleol.

Sicrhewch eich bod yn defnyddio prosiectau sy'n cynorthwyo a grymuso grwpiau cymunedol, gweithgareddau, ac entrepreneuriaid.

E.e. Cymorth i [entrepreneuriaid cymdeithasol](#) drwy **Lloyds TSB/Ysgol i Entrepreneuriaid Cymdeithasol**.

Byddwch yn agored i gychwyn sgysiau gydag aelodau cymunedau a sefydliadau am sut y gallai asedau sy'n berchen i'r sector cyhoeddus nad ydynt yn cael eu defnyddio i'r eithaf, megis tir nad yw'n cael ei ddefnyddio, mannau gwyrdd, adeiladau, [gael ei perchnogi a'u rheoli fel asedau cymunedol](#).

Archwiliwch y potensial i ddefnyddio cyllidebau lleol - gan gychwyn gyda photiau ariannu cymunedol cymedrol - [fel arbrofion Cyllido Cyfranogol](#) - i ennyn ymgyfraniad trigolion a grwpiau cymunedol i wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy.

E.e. Enghreifftiau o Gyllido Cyfranogol ym [Mlaenau Gwent](#) sy'n defnyddio cyllid y swyddfa gartref (2014).

Cynorthwywch fwy o leoedd lle gall sefydliadau cymunedol a gwirfoddol ddod at ei gilydd, [rhannu dysgu](#), a chynnig [cymorth cymheiriaid](#).

E.e. [Talwrn, Adeiladu Ymddiriedaeth Cymunedau](#) ac [Adfer Cymru](#).

Dysgwch oddi wrth sefydliadau sydd wedi defnyddio diwylliant a'r celfyddydau i ddwyn cymunedau at ei gilydd.

E.e. [Partneriaethau Iechyd a Threftadaeth](#) i gyrchu diwylliant drwy wirfoddoli.

E.e. [Fforwm Amrywiaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru](#) – darganfod dulliau newydd o ddehongli diwylliant drwy ymgysylltu â chynrychiolwyr o wahanol gymunedau.

ee

ee

ee

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Amlygwch y ffordd mae cymunedau'n defnyddio 'bwyd' fel dull [o ddwyn cymunedau at ei gilydd](#) - gan fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb bwyd, yn arbennig hyrwyddo [banciau bwyd](#), atal [gwastraffu bwyd](#). Dysgwch oddi wrth [ffrwydrad o arfer gorau ledled y DU](#). Gofynnwch a fyddai [Oergell Fwyd](#) yn gweithio yn eich cymuned?

Cynhaliwch brosiectau peilot '[strydoedd chwarae](#)' a defnyddiwch awgrymiadau Chwarae Cymru ar y ffordd i annog plant i chwarae yn yr awyr agored.

Cwblhewch y Gwiriad Iechyd [Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#).

Cynorthwyywch [asiantaethau Gofal a Thrwsio](#) i alluogi mwy o bobl hŷn i aros yn weithgar, annibynnol, iach a diogel yn eu cartrefi hwy eu hunain.

Cynorthwyywch ac anogwch weithgareddau sy'n pontio cenedlaethau megis [Ffrind i Mi](#), menter newydd yng Ngwent i sicrhau fod pobl o bob oed sy'n teimlo'n unig yn cael eu cynorthwyo i ailgysylltu â'u cymunedau, gan wella'u hiechyd a'u llesiant.

Cryfhewch gydweithredu rhwng iechyd a thai i gynorthwyo trigolion i gadw'n weithgar, yn gysylltiedig ac yn iach yn eu cartrefi a'u cymunedau - '[Why Housing matters to health and care](#)'.

Deallwch bwysigrwydd dylunio da yng nghreadigaeth synnwyr o gymdogaeth a chymuned. Cyfeiriwch at [Bolisi Cynllunio Cymru](#) a'r cysyniad o lunio lle, ac ystyriwch fabwysiadu'r 21 argymhelliad cynaliadwyedd ym [Mhecyn Cymorth Adeiladu Mannau Iach](#).

Datblygwch opsiynau ar gyfer trigolion a chymdeithasau tai i archwilio cyfleoedd [tai cydweithredol](#).

Bod Yn Fwy **Anturus**



Archwiliwch gyfleoedd i gynorthwyo a rhedeg ein cyfleusterau cymunedol hanfodol sy'n darparu ystod eang o fanteision i lesiant cymunedol.



E.e. **Cyngor Sir Fynwy** yw'r awdurdod lleol cyntaf yn y DU i reoli, rhedeg ac agor [Swyddfa Bost gymunedol](#).



Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredoedd cenedlaethol neu gydweithredol

Cydnabyddwch garedigrwydd fel canolbwynt ein llesiant a sicrhewch fod arfer a pholisi gwasanaethau cyhoeddus wedi eu trwytho gan garedigrwydd mewn cymunedau. Dysgwch oddi wrth sgysiau [Rhwydwaith Arloesedd Caredigrwydd](#) sydd wedi bod yn digwydd yn yr Alban mewn partneriaeth â'r [Ymddiriedolaeth Carnegie](#).

Gwnewch yr [ymagwedd gyd-gynhyrchu'n](#) rhagosodedig wrth ddarganfod beth sy'n bwysig i gymunedau, gan wrando ar eu hanghenion a galluogi cymunedau i ddeall blaenoriaethau cyrff cyhoeddus

sy'n gweithio yn y cymunedau hynny. Mae gweithgaredd yn cael ei ddylunio a'i weithredu mewn ffordd sy'n bodloni anghenion pawb.

Mae pob corff cyhoeddus yn [Buddsoddi-mewn-Gwirfoddolwyr](#), ac mae defnyddio [credydau amser](#) wedi dod y norm newydd.

Mae cyllid yn cael ei ddyrannu i gyrff cyhoeddus heb gyfyngiadau diangen megis y rhai a welid drwy grantiau bach niferus seiliedig ar gwrdd â chanlyniadau cenedlaethol y cytunwyd arnynt yn unol â'r nodau llesiant. Gellir dysgu gwersi o'r ymagwedd [Albanaidd](#).

Gweithredu sefydliadaol

Dysgwch oddi wrth Gyngorau Tref a Chymuned sy'n rhannu timau Cynorthwyo Datblygu Cymunedau i weithio yn yr hirdymor gyda chymunedau.

E.e. Astudiaeth achos Partneriaeth Ogwen (Tudalen 5). <http://www.bct.wales/uploads/resources/2018-07-11-01-1-our-local-economies-manifesto.pdf>

Defnyddiwch werthuso a gwersi a ddysgwyd oddi wrth [PLANED \(Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro\)](#) sy'n cynorthwyo cymunedau gyda chynrychiolaeth cyfranogi cymunedol, llesiant, entrepreneuriaeth a sgiliau.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredwch ddysgu cyllidebu cyfranogol oddi wrth awdurdodau lleol a dinasoedd sydd wedi sefydlu [Cyllidebu Cyfranogol](#) ar raddfa, a dros amser. Dysgwch oddi wrth [Dundee](#) yn yr Alban.

E.e. Cyllidebu Cyfranogol – [Paris 5% o gyllid y ddinas.](#)

Drwy ddatblygiad Mapiau Asedau Cymunedol, deallwch gryfderau ac asedau eich cymuned. Dysgwch oddi wrth [yr Alban](#) a chadwch mewn cysylltiad â gwaith sy'n ymddangos yng [Nghymru](#).

Defnyddiwch [Ddatganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru](#) fel sail tystiolaeth i drwytho neu gael gwybodaeth drwy fapio asedau cymunedol. Mae hyn yn galluogi cymunedau i ddeall ble mae'r cyfleoedd yn 'eu hardal hwy' lle gallant ddod at ei gilydd i fynd i'r afael â, neu ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i adeiladu cydlynad a chydnerthedd cymunedol.

Dysgwch oddi wrth [Fire Starter](#) yr Alban – cyfres o ddigwyddiadau dysgu cydweithredol, sy'n amlygu dulliau creadigol, aflonyddol ac arloesol o 'drawsffurfio ein hunain' ein cymunedau a'r system ehangach'.

Hyrwyddwch a chynorthwywch gyfle i wirfoddoli mewn meysydd sy'n berthnasol i feysydd blaenoriaethol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwnewch gyfleoedd tai cydweithredol, megis [Heol Loftus](#), yn opsiwn ar gyfer eu hystyried gan gymunedau.

E.e. Mae **Cyngor Dinas Abertawe** wedi mabwysiadu [polisi tai cydweithredol](#).

Galluogwch ymagwedd dylunio ar y cyd tuag at wella ystadau tai, gan ennyn ymgyfraniad trigolion, pobl broffesiynol a chymorth oddi wrth brifysgolion.

E.e. **Cymdeithas Tai Cartrefi Conwy** – [Cynllun adfywio Tre Cwm](#).

Perchnogi'r Uchelgais



Sicrhewch fod Cymdeithasau Tai yn gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol i arbed asedau treftadaeth a gerir yn fawr, ac i adeiladu eu defnydd cymunedol yn y dyfodol i mewn i ddatblygiadau tai [defnydd cymysg](#).



E.e. **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymdeithas Tai Unedig Cymru** yn trawsnewid [Capel Bargoed](#) yn ganolfan cymunedol.



Cynlluniwch a dyluniwch dai a chymunedau i gynorthwyo cysylltiadau sy'n pontio cenedlaethau.



E.e. Mae [cartref ymddeol arloesol](#) yn yr Iseldiroedd wedi agor ei ddrysau i fyfyrwyr sy'n byw ar y safle i helpu trigolion hŷn ac fel canlyniad yn cael llety am ddim tra'u bod yn gwneud eu hastudiaethau.

Enghreifftiau ac adnoddau eraill

Sylfaen gwybodaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru

Mae Arian i Bawb y Loteri
Genedlaethol yn gronfa
gymunedol hawdd ei chyrru.

Mae Cynllun Noson Allan
Cyngor y Celfyddydau'n ei
gwneud yn hawdd defnyddio
canolfannau cymunedol a chynnal
digwyddiadau creadigol lleol.

Cynlluniau peilot **Sustrans** -
dylunio traffig allan o gymunedau
i gynyddu cymdogaeth a llesiant
ym Mhen-y-bont ar Ogwr a
Rhondda Cynon Taf.

Pecyn Cymorth Creu Lleodd
lach – strategaethau ar gyfer
gwella iechyd yn yr amgylchedd
adeiledig Sefydliad Tir Trefol.

Cynlluniau credydau amser
Tempo wedi eu sefydlu
mewn rhaglenni iechyd a gofal
cymdeithasol.

Pwysigrwydd – 'Kindness,
emotions and human
relationships - the blind spot in
public policy'.

**Partneriaeth Ogwen, Parc Cai
Wrecsam, ac ACE Caerdydd** –
Astudiaethau achos tudalennau
3, 20 a 21.

Planed – Cynorthwyo
cymunedau gyda chyfranogiad
cymunedol, cynrychiolaeth
llesiant, entrepreneuriaeth, sgiliau
ac entrepreneuriaeth.